

Digwyddiadau Prifysgol Abertawe

Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy a'r Cyffiniau 2016



Prifysgol Abertawe
Swansea University

Dyddiad	Lleoliad	Digwyddiad
Dydd Sadwrn 30/07/16	Stondin Prifysgol Abertawe	12.00 - The Eisteddfod (Gwasg Prifysgol Cymru) Ymunwch â Huw Edwards a'r Athro M Wynn Thomas ar gyfer lansio ail-gyhoeddiad cyfrol Hywel Teifi Edwards <i>The Eisteddfod</i> (Gwasg Prifysgol Cymru). Darperir lluniaeth ysgafn.
Dydd Llun 1/8/16	Stondin Prifysgol Abertawe	11.00 - 'Etifeddiaeth y Rhyfel Mawr' Aled Eirug a Dr Gethin Matthews o Adran Hanes Prifysgol Abertawe yn sôn am gofebau Gwent ac effaith diwylliannol a chymdeithasol y Rhyfel Mawr.
	Lolfa Lên	13.00 - Rhwng y Meini (Gwasg y Bwthyn) Yr Athro Christine James o Adran y Gymraeg Prifysgol Abertawe yn lansio <i>Rhwng y Meini</i> (Gwasg y Bwthyn), sef casgliad o'i hareithiau archdderwyddol o'r Maen Llog yng nghwmni'r Prifardd Mererid Hopwood.
Dydd Mawrth 2/8/16	Lolfa Lên	11.00 - Dagrau Tost: Cerddi Aber-fan (Cyhoeddiadau Barddas) Yr Athro Christine James o Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe a'r Athro E Wyn James, Prifysgol Caerdydd yn sgwrsio gyda Sioned Williams am eu casgliad o'r cerddi Cymraeg a ganwyd i Aberfan yn ystod y 50 mlynedd ers y drychineb.
	Lolfa Lên	16.00 - Esboniadur Beirniadaeth a Theori Sgwrs am y cyhoeddiad ar-lein arloesol a fydd yn ffrwyth prosiect ymchwil yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe (<i>cyllidwyd y prosiect hwn gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol</i>) yng nghwmni Robert Rhys, Dr Simon Brooks a'r Athro Daniel Williams.
Dydd Mercher 3/8/16	Stondin Prifysgol Abertawe	11.00 - CorCenCC – Corpws newydd i'r Gymraeg. Rhowch eich geiriau i ni! Sgwrs gyda Steve Morris o Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe a'r gyflwynwraig Nia Parry am brosiect arloesol y Corpws Cenedlaethol Cymraeg Cyfoes.
	Stondin Prifysgol Abertawe	12.30 - Fflur Dafydd – Parch / Y Llyfrgell Yr awdures Fflur Dafydd o Adran Saesneg Prifysgol Abertawe yn sgwrsio gyda Non Vaughan Williams o Adran y Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus am y gyfres newydd o <i>Parch</i> ac am y ffilm o'i nofel arobryn <i>Y Llyfrgell</i> .
Dydd Iau 4/8/16	Y Babell Lên	11.00 - Darlith Goffa Hywel Teifi Edwards Yr Athro Prys Morgan: 'O Flaenau Gwent i Abertawe; Dr Thomas Rees (1815 – 1885) ac argyfwng Cymru Oes Fictoria'. Trafodaeth ar syniadau yr hanesydd a'r pregethwr Dr Thomas Rees am yr angen i greu a chyfleu Cymru Fictoriaidd a allai blesio'r Saeson, yr "English Cause"!
	Stondin Prifysgol Abertawe	12.30 - Derbyniad yng nghwmni'r Athro Richard B. Davies, Is-Ganghellor Prifysgol Abertawe Derbyniad ar gyfer cyn-fyfyrrwr a chyfeillion Prifysgol Abertawe.
Dydd Gwener 5/8/16	Stondin Prifysgol Abertawe	11.00 - Nid Sianel Gyffredin Mohoni! Hanes Sefydlu S4C Lansiad cyfrol newydd Dr Elaine Price o Adran y Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus, Prifysgol Abertawe sydd yn dadansoddi a dehongli hanes sefydlu S4C gan edrych ar flynyddoedd cyfnod prawf y sianel yng nghwmni Euryng Osgwen Williams a Dr Gwenno Ffranccon.
	Stondin Prifysgol Abertawe	15.00 - Mae'r Galon Wrth y Llyw (Honno) Heini Gruffudd yn lansio ail gyhoeddiad <i>Mae'r Galon Wrth y Llyw</i> (Honno) sef cyfrol ei fam, yr awdur a'r ysgolhaig Kate Bosse-Griffiths.